## Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

### Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1309(SJL) a gyhoeddwyd gan Huw Lewis, y Dirprwy Weinidog dros Blant, ar 18 Hydref 2010

**At Bethan Jenkins:**

Ar 29 Medi 2010, gwnaethoch ofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol amlinellu unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch cyflawni targedau tlodi plant 2020. Nododd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol y byddai'n gofyn i mi, fel y Dirprwy Weinidog dros Blant, ysgrifennu'n uniongyrchol atoch.

Mae swyddogion o Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn cyswllt rheolaidd ag arweinwyr ym maes tlodi plant yn Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill. Caiff hyn ei ffurfioli drwy Fforwm y Pedair Gwlad ar Dlodi Plant, sy'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn.

Mae cyfarfodydd Fforwm y Pedair Gwlad ar Dlodi Plant yn canolbwyntio ar y targedau o ran tlodi plant sy'n ymddangos yn Neddf Tlodi Plant 2010; datblygu strategaethau tlodi plant newydd gan bedair gwlad y DU (sydd bellach yn ofynnol o dan ddeddfwriaeth newydd a ddaeth i rym yn 2010); materion dadansoddol sy'n gysylltiedig â'r uchod; a sefydlu'r Comisiwn Tlodi Plant arfaethedig ar gyfer y DU gyfan a'i aelodaeth.

Ym mis Mai eleni, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Strategaeth a Chynllun Cyflenwi Tlodi Plant newydd – gydag ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o dri mis. Mae'r Strategaeth newydd hon yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant, sef sicrhau na fydd yr un plentyn na pherson ifanc o dan anfantais oherwydd tlodi plant erbyn 2020. Mae'r Cynllun Cyflenwi cysylltiedig yn nodi'r weithred polisi a fydd yn cyflawni'r weledigaeth hon.

Derbyniwyd dros 165 o ymatebion i'r ymgynghoriad yn ystod y cyfnod ymgynghori o dri mis, gan gynnwys ymateb gan Sarah Teather AS, y Gweinidog Gwladol dros Blant a Theuluoedd.